

# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 7fed o Fawrth, 2019 yn Neuadd Llanystumdwy.

***Yn bresennol:*** Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Angela Williams, Aled Davies; Tegid Jones; William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones, Ceri Jones; Sion Aled Jones, a'r Clerc.

## **1.Ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones (Is gadeirydd), Naomi Jones; Thomas Prys Jones, Aled Lloyd Evans, Gareth O Davies, Sian Angharad Parry, a Darren Morley.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Chwefror 2019, yn Neuadd Llanystumdwy.

3. Llofnodwyd cadarnhâd y taliadau BACS a wnaed fis Chwefror gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol - neb.

6. Cyngor Gwynedd.

- i) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; **Cyfyngiadau Parcio** Arfaethedig ger tai Glanywern, Chwilog. Mae rhybudd cyhoeddus wedi cael ei roi y papur newydd 07.02.19, a'r dyddiad cau fydd 08.03.19. Derbyn er gwybodaeth.
- ii) **Gorchymyn Cyfyngiad Cyflymder** Cyngor Gwynedd - 40 milltir yr awr yn dod i rym 25.02.19 - Ffordd Dosbarth 2 B4354 - o'r 30 milltir yr awr presennol ger Fferm Brynhyfryd, Chwilog, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 414 metr. Cadw llygaid ar y sefyllfa.
- iii) **Biniau halen** o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt. Mae un ger Gwyddfôr, Chwilog, Pentyrch Uchaf, Llanygybi, rhwng y bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy. Mae angen cadw golwg manwl arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf rhag ofn y bydd hi'n rhewi. **Angen cysylltu hefo'r Clerc os bydd angen ei llenwi. Derbyn.**
- iv) **Adolygiad cludiant cyhoeddus** - Mae Cyngor Gwynedd yn gwario oddeutu 1.5 miliwn ar gynnal y rhwydwaith bob blwyddyn ac yn cyfrannu 476 mil i'r Llywodraeth am Gerdyn Teithio am ddim (dros 60 ac anabl). Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio gyda Prifysgol Bangor i ddylunio holiadur a chael trigolion Gwynedd boed nhw yn

defnyddio'r gwasanaethau neu ddim i gwblhau'r holiadur. Ei nod fydd cyfrifo pa lwybrau bysiau sydd yn darparu'r gwerth cymdeithasol mwyaf i'n trigolion. Y Clerc wedi derbyn copiau papur i'w rhannu ar y noson, er mwyn iddynt gael ei rhoi i aelodau o'r gymuned, rhag ofn nad yw'n bosibl iddynt ei cwblhau ar y wefan.

- v) **Ymgynghoriad cyhoeddus canllaw cynllunio atodol** – Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn, -ymgyngori cyhoeddus canllawiau cynllunio atodol ar gyfer ail-adeiladu tai a throsi adeiladau yng nghefn gwlad, ac ymrwymadau cynllunio – dyddiad cau 04.04.19. Derbyn er gwybodaeth.

**7. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2019.** – Adran 13 sydd yn berthnasol i Gyngorau Tref a Chymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. **Derbyn er gwybodaeth.**

**8. Arolwg Cymru gyfan - gwasanaethau tu allan i oriau meddygon teulu 2019**

Os ydych wedi defnyddio'r gwasanaeth tu allan i oriau, gallwch helpu i wella'r gwasanaeth trwy gwblhau arolwg byr. Bydd eich Cyngor Iechyd Cymuned yn defnyddio'r canlyniadau i ddarganfod lle mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda a lle sydd angen gwelliannau. Bydd yr arolwg yn rhedeg o Ddydd Llun 21 Ionawr hyd at Ddydd Sul 31 Mawrth 2019. **Derbyn er gwybodaeth.**

**9. Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2019/20** - canllaw a ffurflen gais sy'n ymwneud â chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yn 2019-20. Mae ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema craidd, sef **ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau.**

Mae thema gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau wedi'i ehangu yn 2019-20 i gynnwys **ystyried sgôp rhannu swyddogaethau cefn swyddfa.** Nodwch mai'r dyddiad cau cyflwyno ffurflenni cais yw dydd Gwener **12 Ebrill 2019. Gofynwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru efallai, i gael mwy o wybodaeth.**

**10. Swyddfa Archwilio Cymru** -wedi anfon adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol - yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref.

[Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cyngorau Cymuned a Thref 2017-18](#) yn amlinellu casgliadau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol o'i waith archwilio.

[Trefniadau Archwilio Mewnol Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru](#) yn adrodd ar astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o swyddogaethau archwilio mewnol yn y sector. Mae'r ddau adroddiad yn nodi bod angen i gynghorau cymuned a thref wneud gwelliannau i'w trefniadau. Maent yn dweud y gall pob cyngor ddysgu gwersi o'r materion a nodwyd ac felly wedi anfon copiau i bob cyngor yng Nghymru, er mwyn dosbarthu copiau o'r adroddiadau i aelodau y Cyngor i'w trafod mewn cyfarfod priodol. **Derbyniwyd sylwadau yn cadarnhau yn y bon fe sonir am ddiffygion gwahanol gynghorau ond oherwydd ein bod yn cadw at y canllawiau a thrwy dalu am archwilwyr adran Cyngor Gwynedd, nid oes lle i bryderu yn ormodol. Nid yw'r Cyngor yma yn cael ei enwi yn yr adroddiadau. Hefyd, oherwydd fod y cofnodion ariannol yn cael ei cadw ar ffurf Excel, gan fanylu ar yr incwm a gwariant yn fisol bydd ein rheolaeth ariannol yn gliriach wrth i ni symud ymlaen. Derbyniwyd yr argymhelliad.**

## 11. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

- a. Cais Rhif C13/1151/41/LL - Hafod Ynysgain, Llanystumdwy - cais ar gyfer codi 'anecs' yn lle modurdy a ganiateir o dan C13/1150/41/LL. **Cefnogi**.

### **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012- Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.**

Cais gan Mr Meurig Jones, am ganiatâd cynllunio ar dir Williams a Williams Cyf., Melin Plas Du, Y Ffor. Mae eisiau ymestyn yr iard i storio a thrin gwastraff a gosod offer storio. Mae ei asiant, 'Technia Environment and Planning Ltd' yn ymgynghori'n ffurfiol ar ei ran, er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r datblygiadau ac i ganiatau i'r sylwadau a wneir dderbyn ystyriaeth, ac i ymateb iddynt cyn cyflwyno'r cais i Gyngor Gwynedd. Angen ymateb erbyn 08.03.2019. **Cefnogi**

12. Lwfansau Cyngorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cyngorydd wedi llofnodi ar y noson, ac nid oedd y Cyngorydd newydd yn bresennol.

## 13. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

**Mainc** ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dave Smith, Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac wedi ei hysbysu ein bod yn ffafrio'r safle ger y coed. Mae wedi cadarnhau, y bydd yn iawn i ni osod y fainc yn y lleoliad yma, y byddai'n rhaid i ni gytuno ar unrhyw waith y byddai'n digwydd ar ei tir, ond nad oes angen cytundeb ffurfiol. Mae hefyd wedi dweud ei bod yn defnyddio cwmni MK Enterprises, Capel Curig i brynu meinciau 'rustic', ond nad oedd yn siwr os byddai'n addas i'r lleoliad yma.

Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo Mr David Merfyn Griffith, Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, sydd wedi cadarnhau nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r lleoliad ger y coed, cyn belled a bod mwy na 1.2 medr o le pasio yn cael ei adael i ddefnyddwyr y llwybr. Roedd hefyd yn dweud os oeddem yn meddwl tyllu i fewn i'r wal mi fyddai hyn yn gwneud siwr bod y fainc ddigon pell oddi wrth y llwybr. **Angen i'r Clerc holi Mr Dave Smith, ac i weld os byddai'n cytuno i osod un 'haearn' yno yn hytrach nag un goedyn, a chwblhau dwy ffurflen S115a a'i anfon at y Cydlynnydd Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd i gael caniatâd i'w gosod nhw yn y ddau leoliad.**

**Safle bws Cae Llo Brith** - Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn oes yw'n bosib cael 'tarmac' ar tua 20 llath o'r safle bws i fynediad Talafor, yn lle'r gwellt glas sydd yno rwan. Y Clerc wedi derbyn ateb gan Peiriannydd Ardal Dwyfor, yn dweud,

*"ni all y Swyddfa Ardal yma gyfiawnhau gwneud mân welliant drwy waith tarmacio o'r fath ar hyn o bryd ar sail blaenoriaeth risg na chyflwr ffordd. Mae adfer diffygion presennol ar y rhwydwaith ffyrdd o'r gyllideb ar gael yn flaenoriaeth uwch.*

*Rwyf wedi ymgynghori hefyd gyda'r Gwasanaeth Trafnidiaeth rhag ofn fod ganddyn nhw sylw pellach i'w wneud o ran diogelwch y ffordd neu o safbwynt cludiant cyhoeddus. Cadarnhawyd i mi nad oes gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth gyllideb i ystyried mân welliannau o'r fath a hyn o bryd."* **Felly derbyn er gwybodaeth.**

**Wal maes parcio Llanystumdwy wedi dymchwel** –ymholiadau wedi cael ei gwneud ynglyn â pham nad oedd y wal wedi cael ei thrwsio. Y Cynghorydd Aled Evans eisioes wedi cysylltu hefo Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac roeddent wedi cadarnhau ei bod wedi cyfeirio'r mater ymlaen i'r Adran Rheoli Tir. Y Clerc hefyd wedi anfon llythyr atynt i dynnu sylw at y mater, a'r ffaith ei bod wedi dymchwel ers peth amser, ac angen ei thrwsio. **Derbyn.**

**Mynwent Newydd Llanystumdwy** – derbyniwyd llythyr gan Mrs Awen Hamilton, yn dweud eu bod wedi cytuno yn ei Cyfarfod Blynnyddol i wahodd y Cyngor i ethol aelod i gynrychioli Chwilog a'r ardal. Roeddent yn awyddus i gynyddu nifer yr aelodau ar y Pwyllgor, a bod nifer o ardal Chwilog yn cael ei claddu yno. **Cynnigwyd enw Mr Gwilym Thomas, Trewerin, a bod y Clerc yn cysylltu hefo Awen i'w hysbysu.**

### Rhoslan /Ynys

#### Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Parhau i aros penderfyniad ynglyn â mainc Llanystumdwy er mwyn delio hefo'r ddywy ar yr un adeg. Y Clerc wedi derbyn ffurflen gais S115.
- Safle bws ym Mhenygroes Llanystumdwy ar draws y lon i'r garej. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am roi arwydd 'safle bws' a llinellau melyn. **Disgwyl ymateb.**
- Bin baw cwn – cais i gael bin yng ngheg Lon y Fynwent. Bagiau baw cwn yn cael ei rhoi ym miniau'r fynwent sy'n peri gofid a nid oes bin baw cwn arall yn ymyl. Angen i'r Clerc wneud ymholiadau . Y Clerc wedi anfon llythyr i Cyngor Gwynedd, ac wedi trafod y mater dros y ffon hefo Mr Alan Hughes, buodd yn gweld y safle, a dywedodd fod ei cyllid ar gyfer gwasanaethu biniau baw cwn wedi ei wario ac felly mae'n rhaid i bob cais gael ei gysidro'n ofalus cyn ei cyfiawnhau. Dywedodd y byddai'n pasio'r mater ymlaen i Mr Peter Simpson ei Uwch Reolwr i wneud penderfyniad.

### Pencaenewydd/Sardis

#### Llangybi

- Llwybrau Pont Merchaid a Garn Pentyrch – Clerc wedi derbyn e-bost cynhwysfawr gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, yn egluro cyflwr y llwybrau. **Trafodwyd y mater, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo Mr Dewi Owen eto, i gynnig bod angen gwneud y gwaith ar lwybr Pont y Merchaid a draw at Ffynnon Cybi gyntaf, a dim y llall.**

14. **Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd** – roedd y Clerc wedi derbyn ateb byr gan Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, mewn ymateb i lythyr y Clerc. Y Clerc wedi anfon copi o'r ddau lythyr at y Cynghorydd Gareth Thomas, Cadeirydd Portffolio Addysg, Cyngor Gwynedd yn datgan siomedigaeth yn yr ateb.

15. Llythyrau/e-byst yn diolch am gyfraniadau ariannol gan y Cyngor Cymuned Llanystumdwy:-

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
2. Mynwent Capel Helyg, Llangybi
3. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog
4. Mynwent Newydd Llanystumdwy
5. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.
6. Ysgol Feithrin Chwilog.
7. Neuadd Goffa Chwilog.
8. Neuadd Llanystumdwy.
9. Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd
10. Ffermwyr Ifanc Eryri.
11. Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019
12. Menter y Plu.
13. Theatr Bara Caws.

Ni dderbyniwyd llythyr gan Clwb Peldroed Llanystumdwy.

### Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y Clerc yn nodi faint o arian sydd yn y tri cyfrif, gan ddangos cyfrifon excel cyfredol, a'r dogfennau banc diweddaraf. Fe eglurwyd ein bod angen talu bil am Wifi ar gyfer Capel Pencaenewydd, a Neuadd Chwilog, ar ol derbyn bil ganddynt.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio allannol	393.75		Wedi gwneud taliad siec am £150.00 fis diwethaf, balans o 243.75 ar ol	<i>Trafod ar y noson</i>
Criccieth Cleaning	Glanhau safle bws Anfoneb rhif 2246	123.60	20.60	123.60	BACS
Gareth Jones, Ty Gwyn, Caeathro	Cynnal a chadw Bedd Lloyd George tymor 2018	250.00	-	250.00	BACS
Neuadd Chwilog	4 cyfarfod 06.09.18/04.10.18 18.10.18/01.11.18	64.00 (llai credyd o £11.25 o'r flwyddyn cynt 17/18)	-	52.75	BACS

Y Clerc wedi derbyn ateb gan Swyddfa Archwilio Cymru, mewn ymateb i'w llythyr yn holi am y cynnydd yn y bil eleni, o £393.75, yn lle £203.40 llynedd. Dyma'r ateb:-

*"Diolch yn fawr am eich e-bost ac ymddiheuriadau am yr oedi yn ymateb.*

*Mae gofyn i ni godi ffioedd am yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r archwiliad. Bob blwyddyn rydyn ni'n gwneud gwaith gwahanol ac felly bydd yr amser sy'n cael ei dreulio ar y gwaith yn wahanol.*

*Yn 2017/18 rydyn ni wedi gweld cynnydd yn yr amser gafodd ei dreulio yn gwneud y gwaith angenrheidiol ac o ganlyniad roedd angen mwy o amser ar y broses adolygu. Roedd mwy o waith papur a gymerodd fwy o amser i'w adolygu ac i gwblhau'r gwaith angenrheidiol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2016/17 fe gymerodd y gwaith archwilio 2.3 awr o'i gymharu â 4 awr yn 2017/18. Roedd y broses adolygu hefyd wedi cymryd mwy o amser gan fod gwybodaeth fanylach i'w hadolygu gyda 0.40 yn 2016/17 o'i gymharu â 0.95 yn 2017/18.*

*Rydw i wedi diweddarau ein cofnodion ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn 2018/19.  
Cofion Gorau  
Louise Caplen"*

Y Clerc hefyd wedi derbyn ateb arall (07.02.19) gan Mr Deryck Evans, Rheolwr Tîm Technegol, Llywodraeth Leol, Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud ei fod, *"ar hyn o bryd yn edrych ar y gwaith archwilio a wneir ar sail y ffi archwilio. Ymatebaf ymhellach erbyn 14 Chwefror"*.

Ni dderbyniwyd ateb, felly fe anfonodd y Clerc e-bost arall ato, a derbyniwyd yr ateb isod ganddo 28.02.19:-

*"Yr oeddw'n wedi gobeithio ymateb i chi erbyn hyn. Fodd bynnag, yr ydym yn cynnal trafodaethau parhaus gyda BDO am ffioedd. Byddaf yn rhoi ymateb llawnach cyn gynted ag y gallaf."*

Penderfynwyd aros i gael yr ateb gyntaf, cyn talu gweddill y bil.

Cyflog mis Chwefror 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

<b>Enw/Rheswm</b>	<b>Swm</b> £	<b>Cyfanswm Taliad net</b> £	<b>Taliad siec rhif:-</b>
Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2019 35 awr x £9.808 =	343.28-llai treth £68.60	<b><u>274.68</u></b>	101114
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc	343.00 x 20% = £68.60	<b><u>68.60</u></b>	101115
Costau'r Clerc	Cynnwys tâl aelodaeth SLCC £106.00 a ALCC £40.00	<b><u>170.12</u></b>	101116
Un Llais Cymru Tâl Aelodaeth 2019/20	296.00	<b><u>296.00</u></b>	101117

**\*\*Trwy ganiatad y Cadeirydd:-**

Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at y Swyddfa Bost yn holi pam fod y swyddfa wedi cau ar rai adegau yn fyr rybudd, lle yr oedd i fod ar agor.

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.